WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2018

Digwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru: Cylch Gorchwyl

Cefndir

1 Gall Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu cynadleddau a digwyddiadau ('digwyddiad(au) Swyddfa Archwilio Cymru') i gyrff archwiliedig drwy gytundeb o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Presenoldeb a Chytundeb

2 Mae staff cyrff archwiliedig, ar ran y corff sy'n eu cyflogi, yn cytuno i dderbyn gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru drwy gofrestru i ddod i ddigwyddiad Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cyfeirio at y Cylch Gorchwyl hwn. Wrth gofrestru ar gyfer digwyddiad, mae'r staff yn cadarnhau eu bod wedi'u hawdurdodi i gytuno i'r trefniadau i ddarparu'r gwasanaeth ar ran eu cyflogwr a bod caniatâd ganddynt i ddod i'r digwyddiad.

3 Mae croeso hefyd i staff sefydliadau trydydd sector, elusennau a mentrau cymdeithasol neu gymdeithasau, ac unigolion eraill â diddordeb, ddod i ddigwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru os bydd digon o leoedd.

4 Fel arfer, rydym yn darparu digwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru am ddim neu am gost fechan i'r sawl sy'n dod iddynt.

5 Rydym yn egluro sut rydym yn ymdrin â data personol a ddarperir gan y sawl sy'n dod i'r digwyddiad a chyfranwyr mewn hysbysiad prosesu teg sydd ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Diben Digwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru

6 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynllunio digwyddiadau er mwyn:

- ymgysylltu â staff mewn cyrff archwiliedig;
- datblygu ein gwaith a'n harferion gweithio, myfyrio arnynt a rhoi unrhyw wersi a ddysgwyd ar waith;
- hwyluso'r broses o gynnig datblygiad proffesiynol i staff cyllid yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys hyfforddeion cyllid;
- hwyluso'r broses o ddatblygu trefniadau rhwydweithio a chydweithredu cefnogol ar draws cyrff yn y sector cyhoeddus; a

- helpu cyrff cyhoeddus i ystyried sut i wella arferion a rhoi newidiadau ar waith.

7 Gall digwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru fod ar ffurf:

- **digwyddiadau ymgysylltu neu gyfarfodydd neu ddigwyddiadau eraill** sy'n cynnwys cyflwyniadau, trafodaethau, cyfleoedd i rwydweithio a/neu ystyried pynciau penodol, gan gynnwys cyfle i gyfrannu a chyfle i'r sawl sy'n bresennol ofyn cwestiynau; a
- **chynadleddau**, gyda chyflwyniadau gan lefarwyr allweddol a gweithdai a thrafodaethau wedi'u hwyluso.

Trefnu Digwyddiadau

8 Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn trefnu ac yn hwyluso digwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, a all ddarparu digwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru gan Swyddfa Archwilio Cymru yn unig neu mewn cydweithrediad (neu ar y cyd) â chyrff cyhoeddus eraill a/neu sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

9 Mae'n bosibl y byddwn yn ymgynghori â chyfranwyr allanol wrth bennu cwmpas digwyddiadau a'u datblygu, ac y byddwn yn eu gwahodd i lefaru ac ateb cwestiynau mewn digwyddiad.

10 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w digwyddiadau ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, drwy ei chyfrifon Facebook a Twitter i gyrff archwiliedig y gall eu staff gymryd rhan mewn digwyddiadau, awgrymu syniadau ar eu cyfer a chyfrannu. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn anfon negeseuon e-bost at y rheini sydd wedi dod i ddigwyddiadau tebyg yn y gorffennol.

Cyhoeddusrwydd a'r Cyfryngau Cymdeithasol

11 Gall Swyddfa Archwilio Cymru ysgrifennu am ddigwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ymlaen llaw er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ac ennyn diddordeb. Gallwn hefyd wahodd cyfranwyr i wneud hynny.

12 Yn ystod digwyddiadau, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn annog y sawl sy'n bresennol i ofyn cwestiynau, i gyfleu barn a negeseuon allweddol a gall eu rhannu drwy ei gwefan, ei blog, ei chyfrif Twitter neu gyfrif arall sy'n rhan o'r cyfryngau cymdeithasol megis LinkedIn.